# CABINET – 24 MAWRTH 2021

**PWNC:** CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL – ADRODDIAD MONITRO A GWELLA BLYNYDDOL 2019-2020

**ADRODDIAD GAN:** Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

---

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Hysbysu'r Cabinet am y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-2020 yn erbyn targedau yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 cyfredol y Cyngor, ac i'r Cabinet ei gymeradwyo i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## 2. CRYNODEB

2.1 Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi adroddiad monitro blynyddol ar faterion sy'n ymwneud â Chydraddoldeb o dan y ddeddfwriaeth gyfredol. Mae'r gofynion yn fanwl iawn o ran pa wybodaeth berthnasol y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr adroddiad monitro a gwella blynyddol (a atodir yn llawn fel atodiad).

2.2 Felly cyflwynir yr wybodaeth er mwyn sicrhau bod y corff rheoleiddio dan sylw (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) yn cael tystiolaeth lawn o gydymffurfiaeth y Cyngor â'r dyletswyddau statudol hynny a'i ymrwymiad iddynt.

2.3 Rhaid i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol - Adroddiad Monitro a Gwella Blynyddol gael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 I'r Cabinet gymeradwyo'r adroddiad monitro a gwella blynyddol i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn y 31 Mawrth.

## 4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

4.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 baratoi adroddiad monitro blynyddol ar y camau a gymerwyd ganddo i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'i Amcanion Cydraddoldeb ei hun.

## 5. YR ADRODDIAD

5.1 O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, rhaid i adroddiad blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol gael ei gyhoeddi o fewn 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae a wnelo'r adroddiad hwnnw â hi.

5.2 Atodir adroddiad Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Adroddiad Monitro a Gwella Blynyddol 2019-2020 i'r adroddiad hwn.

5.3 Fodd bynnag, i grynhoi, dylid nodi'r wybodaeth ganlynol am berfformiad sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol dan sylw:

- Cafodd wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ei nodi trwy gefnogi mentrau rhanbarthol yn y gymuned. Yn gorfforaethol mi wnaethom weithio mewn partneriaeth â Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a lansio'r Diwrnod Gwisgo Coch a gweithio gyda chlybiau rygbi lleol oedd yn hyrwyddo Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb yn eu deunydd ategol a thrwy eu sianeli cyfryngau cymdeithasol.
- Cyflenwodd Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru 1,046 o wersi gyda 498 ohonynt yn canolbwyntio ar fwlio, amrywiaeth, parch neu ddiffyg parch a gorfodaeth.
- Gwariodd y Rhaglen Gwaith Anabledd, gaiff ei redeg gan y Gwasanaethau Eiddo, £65,000 ar gefnogi gwaith gwella mynediad i bobl anabl.
- Gwnaed gwaith sylweddol i ymgysylltu â nifer fawr o fusnesau lleol sydd â chanran uchel o ddinasyddion yr UE yn eu gweithlu i weithio gyda nhw ynghylch y Cynllun Statws Preswylydd Sefydlog yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r gwaith yn parhau trwy weithio'n agos gydag asiantaethau recriwtio i gyrraedd nifer uwch o Wladolion yr UE a chefnogi gwytnwch Brexit lleol.
- Datblygwyd ac ymgynghorwyd â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Mabwysiadwyd y Cynllun gan y Cyngor llawn ym mis Hydref 2020.
- Cafodd nifer o ddiwrnodau ymwybyddiaeth eu dathlu neu eu nodi gan gynnwys Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, Mis Hanes LHDT, Diwrnod Shwmae, Diwrnod Rhyngwladol Dynion a oedd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl, Wythnos Ymwybyddiaeth Dementia, Pride Cymru, Diwrnod Hawliau'r Gymraeg (Mae gen i hawl) a Diwrnod Cofio'r Holocost.
- Mae gwaith rhyng-genedlaethau rhwng Fforwm 50+ Caerffili ac Ysgol Lewis Pengam yn parhau gyda'r ysgol yn gweithio gyda Chartref Gofal Trafalgar yn Nelson i gynhyrchu barddoniaeth ar gyfer digwyddiad *Barddoniaeth Gyda'n Gilydd*, dan ofal Gyles Brandreth ac a fynychwyd gan Dduges Cernyw.
- Cafwyd rhagor o gynnydd gyda'r gwaith o greu Ffrindiau Dementia gyda 1,395 o bobl ar draws y fwrdeistref sirol bellach yn Ffrindiau Dementia a 10 Hyrwyddwr Dementia ychwanegol wedi'u hyfforddi. Y ffocws y nawr yw cynnwys pobl ifanc a chreu mwy o Ysgolion sy'n Dementia Gyfeillgar a gweithio i wneud Bargod y dref Dementia Gyfeillgar gyntaf.

5.4 **Casgliad**

Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol 2019-2020 yn erbyn targedau yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol y Cyngor.

## 6. RHAGDYBIAETHAU

6.1 Ni wnaed unrhyw ragdybiaethau wrth baratoi'r adroddiad hwn.

## 7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISÏAU PERTHNASOL Y CYNGOR

7.1 **Cynllun Corfforaethol 2018-2023.**

Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd ag amcanion canlynol Cynllun Corfforaethol 2018-2023;

Amcan 1 - Gwella cyfleoedd addysg i bawb
Amcan 2 - Galluogi cyflogaeth
Amcan 6 – Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant

7.2 Ceir hefyd nifer o strategaethau cenedlaethol neu reoliadau gan Lywodraeth Cymru y mae gwaith Cydraddoldeb y Cyngor yn gysylltiedig â nhw;

- **"Ffyniant i Bawb "** a **"Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol"** - Strategaethau Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru
- **"Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu"** ymrwymiad Llywodraeth Cymru i herio gelyniaeth a rhagfarn, gyda'r nod o ysgogi mwy o arweiniad a gwaith partneriaeth yng Nghymru er mwyn herio troseddau casineb a mynd i'r afael â nhw.
- **"Teithio at Ddyfodol Gwell"** – Fframwaith Gweithredu a Chynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru i Sipsiwn a Theithwyr;
- **"Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg"** – fframwaith Llywodraeth Cymru i gefnogi ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg, ac agweddau amrywiol ar reoliadau Cynllunio, Trwyddedu ac Adeiladu.

## 8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

8.1 Mae materion sy'n ymwneud â Chydraddoldeb yn themâu trawsbynciol y Nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac maent yn effeithio ar holl bolisïau, swyddogaethau a gweithdrefnau'r Cyngor, gan gwmpasu'r rhai sydd wedi'u hanelu at y polisïau cyhoeddus a mewnol sy'n cwmpasu aelodau o staff y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cyfrannu at y Nodau Llesiant canlynol:

- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

- Hirdymor – Sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno yn unol ag anghenion ei breswylwyr.
- Atal – Mae'r adroddiad yn rhoi tystiolaeth o'r gwaith a wnaed er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu hyfforddi a bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd gynhwysol nad yw'n gwahaniaethu.
- Integreiddio – Bydd integreiddio Cydraddoldeb a'r Gymraeg â'r polisïau a'r cynlluniau sydd ar waith gan y Cyngor yn sicrhau cysondeb o ran cyflawni amcanion a chyflwyno adroddiadau ar ddyletswyddau ac yn meithrin perthynas gydgysylltiedig a chryfach rhwng gwasanaethau.
- Cydweithredu – Mae'r adroddiad yn rhoi tystiolaeth o'r gwaith a wnaed drwy gydweithio â nifer o bartneriaid y Cyngor.
- Cynnwys – Mae'n bwysig iawn ein bod yn cynnwys pobl a phartneriaid yn y gwaith a wnawn, fel y bydd y gwaith yn gydgysylltiedig ac yn gyson ond hefyd fel y gall pobl o gefndiroedd amrywiol ddylanwadu ar newid drwy ddarparu gwasanaethau a rhoi polisïau ar waith.

## 9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

9.1 Cynhaliwyd asesiad llawn ac ymgynghoriad ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wrth iddo gael ei ddatblygu, felly ni wnaed asesiad llawn o'r adroddiad blynyddol hwn. Mae'r adroddiad ei hun yn asesu'r hyn a gyflawnwyd gan y Cyngor o dan y Cynllun.

## 10. GOBLYGIADAU ARIANNOL

10.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn am fod yr adroddiad blynyddol yn cwmpasu gwaith a wnaed eisoes yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

## 11. GOBLYGIADAU O RAN PERSONÉL

11.1 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran personél i'r adroddiad hwn, ond parheir i adolygu hyn wrth i'r gwaith a nodwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol fynd rhagddo.

## 12. YMGYNGHORIADAU

12.1 Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ym mhob maes gwasanaeth ar weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ystod 2019-2020.

12.2 Anfonwyd yr adroddiad hwn at yr Ymgyngoreion a restrir isod ac mae'r holl sylwadau a gyflwynwyd wedi'u hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn.

## 13. PŴER STATUDOL

13.1 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Deddf Hawliau Dynol 1998
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Awdur: Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi – Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori – cullima@caerffili.gov.uk

Ymgyngoreion:
Christina Harrhy – Prif Weithredwr
Richard Edmunds – Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Y Cynghorydd Eluned Stenner – Aelod Cabinet dros Perfformiad a Gwasanaethau Cwsmer
Y Cynghorydd James Pritchard – Cadeirydd Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau
Sue Richards – Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg
Robert Tranter – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro
Lynne Donovan – Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Keri Cole – Prif Swyddog Addysg
Mark Williams – Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro
Kathryn Peters – Rheolwr Gwella Gwasanaethau a Phartneriaethau
Ros Roberts – Rheolwr Gwella Busnes
Christopher Hunt – Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol (Gorllewin Gwent)
Hayley Lancaster – Uwch Swyddog Cyfathrebu
Elizabeth Sharma – Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu
Louise Saddler – Arbenigwr Gwe
Nick Rutter – Swyddog Cyfathrebu Digidol
Siân Wolf-Williams – Swyddog Polisi
Mark Jennings – Swyddog Strategaeth Dai
Lisa Rawlings – Swyddog Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog
Emma Bush – Seicolegydd Addysgol
Lyndon Samuel – Cydlynydd Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol, Heddlu Gwent
Phil Diamond – Rheolwr Gwasanaeth – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Papurau Cefndir:
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020
- Amcanion a Chynllun Gweithredu ar gyfer Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg 2016-2020
- Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Adroddiad i'r Cabinet ar 18 Ionawr 2017 – Strategaeth y Gymraeg 2017-2022

- Dogfennau Canllaw Amrywiol (Mae'r rhain ar gael yn electronig er gwybodaeth drwy Borthol y Fewnrwyd ac ar wefan y Cyngor yn www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb)

Atodiadau:
Atodiad 1 Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Adroddiad Monitro a Gwella Blynyddol 2019-2020